# *Cefnogi Newid*: Gwisgoedd Ysgol

Astudiaeth Achos 2

## Gwybodaeth

**Ysgol Gynradd Buttington Trewern, Powys**

140 o Ddysgwyr

6% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Y prif feysydd o dan sylw

- ✓ Cost a fforddiadwyedd
- ✓ Hyrwyddo'r Grant Hanfodion Ysgol (SEG)
- ✓ Ailgylchu
- ✓ Lleihau ôl troed carbon

## Yr Angen a Amlygwyd

Yn ymwybodol o effaith yr argyfwng costau byw ar ein rhieni, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n gweithio o dan gontract dim oriau. Hefyd, roedd gennym gasgliad go fawr o eiddo coll. Roedd ein Gweinyddiaeth Eco a'r Hinsawdd am ei atal rhag mynd i safle tirlenwi.

## Cost y newid

Ffi o £300 am waith cychwynnol i osod unedau cegin a chownteri dros ben, rheiliau dillad a bin cyfraniadau.

## Camau a gymerir

- ✓ Hyrwyddo **fel siop cyfnewid gwisg ysgol**
- ✓ Mae'r stoc yn **eiddo coll heb ei labelu a chyfraniadau** gan deuluoedd
- ✓ Mae **cynllun ailgylchu** yn fodd i deuluoedd gael gwisg ysgol o ansawdd da **am ddim**
- ✓ Cynghorir **darpar rieni** i ymweld â'r siop gyfnewid cyn prynu gwisg ysgol newydd

## Pwy sy'n cymryd rhan?

- ✓ Dysgwyr
- ✓ Rhieni a gofalwyr
- ✓ Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion

**Dysgwyr:** Ein 'Gweinyddiaeth Eco a'r Hinsawdd' sy'n rheoli ac yn cynnal y siop. Defnyddiwyd hi hefyd yn rhan o gystadleuaeth Earthshot 2024 Newid Hinsawdd Cymru.

**Rhieni / Gofalwyr:** Rhieni a gofalwyr sy'n cyfrannu'r wisg ysgol. Mae mwy a mwy o rieni'n cael gwisg ysgol o'r siop gyfnewid.

**CRhACh:** Wedi helpu i sefydlu'r siop ac yn ei hyrwyddo'n rheolaidd. Gwnaethon nhw lenni hyfryd er mwyn trefnu'r holl stoc yn ôl oedran.

## Effaith a chanlyniadau

- ✓ **Gwisg ysgol o ansawdd da am ddim**
- ✓ **Atal** achosion posib o **stigma neu fwlio**
- ✓ Mwy a mwy o rieni'n defnyddio'r cyfleuster
- ✓ Lleihau lefelau tirlenwi ac **effaith negyddol** cynhyrchu tecstilau **ar yr amgylchedd**
- ✓ **Helpu i ychwanegu at yr SEG** a theuluoedd nad ydynt yn gymwys i'w dderbyn

## Y rhwystrau a gafodd sylw

Mae ein dull gweithredu yn atal pryder neu stigma o ran gwisg ysgol ail law.

## Cyngor i ysgolion eraill

**Ewch amdani!** Meddyliwch yn ofalus am leoliad y siop i'w gwneud yn hygyrch ond yn breifat gan ddilyn gweithdrefnau diogelu bob amser. Ewch ati i'w hyrwyddo'n dda ar gyfryngau cymdeithasol yr ysgol fel na fydd rhieni'n prynu gwisg ysgol cyn cael gwybod amdani.

## Eisiau gwybod mwy?

Gallwch gysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu:
office@trewern.powys.sch.uk

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES